Archwilio Cymru
Audit Wales

# Trefniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4743A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Pam y gwnaethom yr archwiliad hwn 4

Ein dyletswyddau archwilio 4

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn 4

Pam mae comisiynu yn bwysig 4

Yr hyn a wnaethom edrych arno a sut mae da yn edrych 5

Ein dulliau archwilio a phryd y gwnaethom gynnal yr archwiliad 5

Yr hyn a ganfuwyd gennym 6

Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor 8

Atodiadau

Atodiad 1 – cwestiynau a meini prawf archwilio 9

# Adroddiad cryno

## Pam y gwnaethom yr archwiliad hwn

### Ein dyletswyddau archwilio

1 Rydym yn cynnal yr archwiliad hwn o dan y dyletswyddau a geir yn:

- adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon (neu beidio) bod y Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau;
- adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

2 Gall yr archwiliad hwn hefyd lywio astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004.

### Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

3 Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn yw:

- rhoi sicrwydd bod gan gynghorau drefniadau priodol ar gyfer comisiynu gwasanaethau i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau;
- rhoi sicrwydd bod cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gomisiynu gwasanaethau;
- esbonio sut mae cynghorau yn mynd ati i gomisiynu gwasanaethau ac ysbrydoli a grymuso cynghorau a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus drwy nodi a rhannu enghreifftiau o arferion/dulliau nodedig pan fo hynny'n berthnasol.

4 Rydym yn cynnal yr archwiliad hwn ym mhob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.

## Pam mae comisiynu yn bwysig

5 Comisiynu yw proses y Cyngor o ddylunio gwasanaethau y mae'n bwriadu eu cyflawni. Mae'n dechrau trwy ddiffinio'r gwasanaeth a'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir ac yn gorffen pan fo’r Cyngor yn trefnu ei ddull cyflawni. Er enghraifft, drwy sefydlu tîm cyflawni yn fewnol, neu drwy gaffael cyflenwr allanol.

6 Gall trefniadau comisiynu helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflawni’n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. I'r gwrthwyneb, gall gwendidau mewn trefniadau comisiynu leihau effaith a gwerth am arian gwasanaethau, hyd yn oed os yw'r prosesau dilynol, megis caffael a rheoli contractau yn gadarn.

# Yr hyn yr ydym yn edrych arno a sut mae da yn edrych[1]

7 Gwnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer comisiynu gwasanaethau ac yn benodol i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac i ba raddau y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.

8 Nid oedd yr archwiliad hwn yn cwmpasu trefniadau caffael na threfniadau rheoli contractau'r Cyngor.

9 Roedd yr archwiliad yn ceisio ateb y cwestiwn cyffredinol: **Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?**

10 Gwnaethom ddefnyddio'r meini prawf archwilio a nodir yn **Atodiad 1**, sydd hefyd yn dangos sut mae'r meini prawf yn cysylltu â'r cwestiynau archwilio. Llywiwyd hyn gan ein gwybodaeth gronnol yn ogystal â'r hierarchaeth gwestiynau a'r dangosyddion cadarnhaol a ddatblygwyd gennym i gefnogi ein harchwiliadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

# Ein dulliau archwilio a phryd y gwnaethom gynnal yr archwiliad

11 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau, a chyfweliadau gyda'r uwch swyddog(ion) sy'n gyfrifol am ddatblygu dull strategol y Cyngor o gomisiynu. Hefyd gwnaethom gynnal cyfweliadau gydag uwch-swyddogion sy'n gyfrifol am wasanaethau y mae'r Cyngor wedi'u comisiynu'n allanol.

12 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau'r Cyngor, gwnaethom gynnal profion sampl o'r trefniadau y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith i gomisiynu gwasanaethau. I wneud hyn, gwnaethom ddewis nifer o wasanaethau lle mae'r Cyngor wedi penderfynu comisiynu gwasanaethau'n allanol ac archwilio'r trefniadau comisiynu y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith. Dyma'r sampl o feysydd gwasanaeth a adolygwyd gennym yn y Cyngor:

- Taliadau Uniongyrchol
- Eiriolaeth i blant a phobl ifanc
- Eiddo ar les ar gyfer llety dros dro

13 Cyfyngwyd y dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau i'r ffynonellau hyn. Gwnaethom gynnal y gwaith hwn ym mis Medi 2024.

[1] Diffinnir fel 'yr hyn a ddylai fod' yn unol â deddfau neu reoliadau, 'yr hyn a ddisgwylir' yn ôl arferion gorau, neu 'yr hyn a allai fod', o dan amodau gwell.

14 Rydym yn ymgymryd â'r gwaith hwn ym mhob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru ac, yn ogystal ag adrodd yn lleol i bob cyngor, rydym hefyd yn bwriadu llunio adroddiad cenedlaethol.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

15 Yn gyffredinol, canfuom fod y Cyngor yn dangos ei fod yn ystyried gwerth am arian wrth gomisiynu rhai gwasanaethau, ond nid oes ganddo drefniadau ar waith i sicrhau bod hyn yn digwydd yn gyson. Nodwn isod pam y daethom i'r casgliad hwn.

16 Mae gan y Cyngor strategaeth gaffael a rhai trefniadau sy'n cefnogi gwasanaethau i ystyried opsiynau comisiynu a nodi pam ac a oes angen iddynt gomisiynu gwasanaeth. Mae meysydd gwasanaeth yn cynnal arfarniadau opsiynau i ystyried ystod o opsiynau cyflawni cyn comisiynu. Mae'r Cyngor hefyd yn drafftio strategaethau comisiynu ar gyfer meysydd gwasanaeth unigol yn ei adran gwasanaethau cymdeithasol a allai gryfhau ei drefniadau.

17 Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio ystod eang o wybodaeth ac yn ymgysylltu â phartneriaid allanol a defnyddwyr gwasanaethau wrth ystyried opsiynau comisiynu.

18 Yn ogystal, mae rhai meysydd gwasanaeth yn cyflogi swyddogion comisiynu llawn amser i gefnogi eu gweithgarwch comisiynu. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i sicrhau bod yr holl opsiynau comisiynu perthnasol yn cael eu hystyried fel mater o drefn ar draws pob maes gwasanaeth. Hefyd, nid yw meysydd gwasanaeth bob amser yn ystyried pam a sut y dylid comisiynu gwasanaeth.

19 Mae cael dealltwriaeth glir o pam mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu, yr hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni, a'r gwahanol opsiynau sydd ar gael yn elfennau pwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian.

20 Mae'r Cyngor yn ystyried yr hyn y mae tymor hir yn ei olygu wrth gomisiynu gwasanaethau ac yn defnyddio ystod o wybodaeth yn yr ystyriaethau hyn. Mae rhai gwasanaethau yn cael eu treialu drwy gontract 12 mis i ganiatáu gwerthuso cyn ymrwymo mwy o adnoddau i'r gwasanaeth. Mae gwasanaethau a gomisiynir gan ddefnyddio cyfnodau contract hirach yn cynnwys hyblygrwydd a chymalau terfynu. Mae'r rhain yn caniatáu i'r Cyngor werthuso a chynnig newidiadau yn y ddarpariaeth i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr.

21 Mae Strategaeth Gaffael y Cyngor yn nodi ei ddull o sicrhau gwerth am arian yn ei wasanaethau a gomisiynir. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn wedi'i ymgorffori'n llawn mewn gwasanaethau; o ganlyniad, nid yw'r Cyngor yn nodi'n rheolaidd sut y bydd gwerth am arian yn cael ei gyflawni drwy'r gwasanaethau a gomisiynir.

22 Mae ystyried goblygiadau tymor hir a thymor byr penderfyniadau comisiynu yn lleihau'r risg o beidio â sicrhau gwerth am arian dros y tymor hwy.

23 Mae'r Cyngor yn ystyried yr effaith ehangach y gall ei wasanaethau a gomisiynir ei chael. Mae ei strategaeth gaffael yn dangos sut y gall gwasanaethau gyfrannu at amcanion y Cyngor, gan gynnwys cefnogi'r economi leol a lleihau effaith carbon

gwasanaethau. Mae'r strategaeth hefyd yn amlinellu sut y gall gwasanaethau a gomisiynir gyfrannu at amcanion ei bartneriaid a nodau llesiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Adroddir ar yr effaith hon yn yr adroddiad blynyddol cyntaf ar strategaeth gaffael y Cyngor.

24 Roedd swyddogion hefyd yn gallu nodi'r effaith a gafodd gwasanaethau unigol a gomisiynwyd ar amcanion y Cyngor a nodau llesiant Llywodraeth Cymru, ond ni welsom dystiolaeth o'r effaith hon yn cael ei chofnodi'n ffurfiol.

25 Gall ystyried goblygiadau ehangach penderfyniadau comisiynu helpu'r Cyngor i osgoi dyblygu a nodi nifer o fanteision sy'n sicrhau gwell canlyniadau a gwerth am arian.

26 Mae'r Cyngor yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid a phobl i ddylunio a chyflawni ei wasanaethau a gomisiynir. Darparodd dystiolaeth o wasanaethau yn ymgymryd ag ystod o weithgarwch dadansoddi i ddeall ar bwy y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda grwpiau defnyddwyr gwasanaethau i adolygu'r gwasanaethau presennol.

27 Mae'r Cyngor yn defnyddio barn gan amrywiaeth o randdeiliaid i gefnogi gwerthuso, datblygu a monitro ei wasanaethau a gomisiynir. Mae hyn yn cynnwys defnyddio paneli o bobl ifanc i werthuso darparwyr Eiriolaeth, grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig i helpu i ddatblygu'r gwasanaeth taliadau uniongyrchol. Bu'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda'r gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth carchardai wrth ddatblygu gwasanaeth llety cyn-droseddwyr.

28 Er enghraifft, mae'r gwasanaeth eiriolaeth yn defnyddio panel o bobl ifanc fel rhan o'i broses gomisiynu ac roedd defnyddwyr gwasanaethau yn rhan o'r broses o gytuno ar fesurau perfformiad ar gyfer y gwasanaeth taliadau uniongyrchol a gomisiynir.

29 Gall gweithio gyda'r bobl a'r partneriaid cywir helpu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn comisiynu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ei gymunedau, a bod y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n sicrhau'r gwerth mwyaf am arian.

30 Mae gan y Cyngor drefniadau i adolygu gwerth am arian ac effeithiolrwydd ei wasanaethau a gomisiynir drwy adroddiadau mewnol ac allanol. Mae gwasanaethau a gomisiynir yn adrodd ar gynnydd drwy'r cyfarwyddwr perthnasol a'r pwyllgor craffu yn rheolaidd. Er enghraifft, arweiniodd gwerthusiad o'i wasanaeth taliadau uniongyrchol at ail-ddylunio'r gwasanaeth i wella ei effeithlonrwydd a phrofiad y defnyddiwr. Mae'r Cyngor hefyd yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn ei strategaeth gaffael i'r Pwyllgor Goruchwylio a Chraffu Cyllid ac Adnoddau.

31 Fodd bynnag, ni allai'r Cyngor ddarparu tystiolaeth bod y gweithgarwch hwn yn systematig ar draws pob maes gwasanaeth.

32 Mae'r Cyngor yn defnyddio gwersi a ddysgwyd o'i wasanaethau a gomisiynir i ddeall effeithiolrwydd ei ddull comisiynu. Mae'r meysydd gwasanaeth yr ydym yn eu harchwilio yn adolygu gweithgarwch comisiynu ac yn dysgu gwersi o hyn. Maent yn rhannu rhywfaint o'r wybodaeth hon yn rhanbarthol ac yn genedlaethol â grwpiau a phartneriaid allanol.

33 Fodd bynnag, mae rhannu gwersi a ddysgir yn fewnol yn anghyson ac anffurfiol. Mae'r trefniadau hyn yn golygu y gallai'r Cyngor fod yn colli cyfleoedd i wella gwerth am arian ac effeithiolrwydd ei weithgarwch comisiynu ar draws yr holl wasanaethau.

34 Mae gwerthuso gwerth am arian ac effeithiolrwydd trefniadau comisiynu yn elfen bwysig i helpu i nodi meysydd i'w gwella, a rhannu’r hyn a ddysgir, ac felly sicrhau gwerth am arian.

# Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor

**Arddangosyn 1: ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor**

| **Argymhellion** |
| --- |
| A1 Nid oes gan y Cyngor drefniadau systematig i sicrhau bod ei weithgarwch comisiynu yn sicrhau gwerth am arian. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, dylai'r Cyngor wneud y canlynol:<br>• cryfhau trefniadau i oruchwylio gweithgarwch comisiynu corfforaethol ar draws pob maes gwasanaeth;<br>• cryfhau trefniadau i sicrhau ei fod yn monitro ac yn gwerthuso'r holl wasanaethau a gomisiynir yn systematig i ddeall a ydynt yn cyflawni gwerth am arian. |

# Atodiad 1

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

**Cwestiwn cyffredinol:** Wrth gomisiynu gwasanaethau a yw'r Cyngor yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?

| Cwestiwn Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| A oes gan y Cyngor resymeg glir dros gomisiynu gwasanaethau? | A yw'r Cyngor yn diffinio'n glir y gwasanaethau y mae'n bwriadu eu comisiynu a pham? | • Mae'r Cyngor yn nodi diffiniad clir o'r gwasanaethau y mae'n bwriadu eu comisiynu<br>• Mae'r Cyngor yn nodi 'pam' y mae angen iddo gomisiynu'r gwasanaethau gan gynnwys:<br>– y canlyniadau/effaith a fwriedir yn sgil cyflawni'r gwasanaeth<br>– a yw/sut mae'r gwasanaeth yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol |
| | A yw'r Cyngor yn cynnal arfarniad cynhwysfawr o opsiynau comisiynu cyn penderfynu comisiynu gwasanaeth? | • Mae'r Cyngor yn ystyried yr amrywiaeth lawn o opsiynau comisiynu ar gyfer darparu'r gwasanaeth - gallai'r opsiynau gynnwys, er enghraifft:<br>– darpariaeth fewnol,<br>– trefniadau partneriaeth neu ddulliau comisiynu mewn sectorau ac ar draws sectorau<br>– allanoli'r gwasanaeth i ddarparwr arall drwy ymddiriedolaeth neu drefniant arall<br>– contractio'r gwasanaeth drwy broses dendro<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried manteision cost yr opsiynau o safbwynt darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd – gan gynnwys dros y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir<br>• Mae'r Cyngor yn cynnwys costau rheoli contractau yn ei asesiad o opsiynau comisiynu<br>• Mae'r Cyngor yn cynnwys asesiad risg ar gyfer pob opsiwn comisiynu fel rhan o'r asesiad o'r manteision costau<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth o |

| | | |
|---|---|---|
| | | ffynonellau mewnol ac allanol i ddatblygu dealltwriaeth o'r ffactorau presennol a hirdymor sy'n debygol o effeithio ar wasanaethau a gomisiynir. |
| A yw'r Cyngor yn cynllunio dros amserlen briodol? | A yw'r Cyngor yn ystyried yr hyn mae tymor hir yn ei olygu wrth gomisiynu gwasanaethau? | • Mae'r Cyngor yn ystyried yr hyn y mae tymor hir yn ei olygu wrth gynllunio ei ddull o gomisiynu gwasanaethau – h.y. pa mor bell ymlaen y gall/y dylai gynllunio a pham<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd yn cydbwyso anghenion tymor byr a thymor hir wrth gynllunio comisiynu gwasanaethau, gan gynnwys, er enghraifft, wrth bennu'r amserlen ar gyfer contractau neu drefniadau comisiynu eraill |
| | A yw'r Cyngor yn deall goblygiadau adnoddau tymor hir wrth gomisiynu gwasanaethau? | • Mae'r Cyngor yn meddwl am yr adnoddau y bydd eu hangen arno dros y tymor canolig a'r tymor hwy (costau oes gyfan) i ddarparu gwasanaethau a gomisiynir<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried sut y gellid gweithredu amrywiaeth o senarios lleihau cyllideb yn y dyfodol i wasanaethau a gomisiynir |
| | A yw'r Cyngor yn nodi sut y bydd yn monitro gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynir dros y tymor byr, canolig a'r tymor hir? | • Mae'r Cyngor yn nodi'r trefniadau monitro y bydd yn eu dilyn ar gyfer y gwasanaeth a gomisiynir<br>• Dylai'r Cyngor nodi sut y bydd gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynir yn cael ei asesu a'i fonitro gan gynnwys:<br>– costau a manteision; a<br>– cynnydd tuag at gerrig milltir a mesurau tymor byr, canolig a thymor hwy |
| A yw'r Cyngor wedi meddwl am yr effeithiau ehangach y gallai ei wasanaeth a gomisiynir eu cael? | Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl tuag at amcanion llesiant y Cyngor? | • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar ei holl amcanion llesiant ei hun i sicrhau manteision lluosog, osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol. E.e. ystyried amcanion tymor hwy, y gadwyn gyflenwi leol, cadernid y farchnad ac effaith hyd contractau, bioamrywiaeth, lleihau carbon |

| | | |
|---|---|---|
| | Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall gwasanaethau sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl tuag at amcanion llesiant cyrff sector cyhoeddus eraill? | • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff sector cyhoeddus eraill er mwyn sicrhau manteision lluosog ac osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol. |
| | Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall gwasanaethau sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl tuag at Nodau Llesiant Cenedlaethol? | • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar nodau llesiant cenedlaethol er mwyn sicrhau buddion lluosog ac osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol |
| A yw'r Cyngor yn gweithio gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a darparu ei wasanaethau a gomisiynir? | A yw'r Cyngor wedi nodi pwy mae angen iddo eu cynnwys? | • Mae'r Cyngor yn deall pwy fydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Mae hyn wedi ei lywio gan ddadansoddiad gan rhanddeiliaid neu debyg. |
| | A yw'r Cyngor yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o bobl? | • Mae'r Cyngor yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o safbwyntiau wrth benderfynu sut i gomisiynu gwasanaethau.<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio canlyniadau gweithgarwch cynnwys i lywio sut y bydd yn comisiynu gwasanaethau, gan gynnwys ei effaith ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. |
| | A yw'r Cyngor yn cydweithredu â'r partneriaid cywir? | • Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o ba bartneriaid a phartneriaid posibl y gallai weithio gyda nhw i gomisiynu gwasanaethau i wella gwerth am arian. Mae hyn wedi'i lywio gan ddadansoddiad cynhwysfawr o bartneriaid posibl a'u blaenoriaethau<br>• Lle nodir cyfleoedd i wella gwerth am arian drwy gomisiynu gwasanaethau mewn partneriaeth, mae'r Cyngor yn eu dilyn |
| A oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i werthuso gwerth am arian ei ddull comisiynu? | A yw'r Cyngor yn gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau comisiynu fel mater o drefn? | • Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei ddull o gomisiynu yn rheolaidd, gan gynnwys:<br>– y graddau y mae gwasanaethau a gomisiynir yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | cyflawni'r amcanion y mae'r Cyngor wedi'u pennu<br>– gwerth am arian modelau comisiynu a ddewiswyd gan gynnwys ystyried mewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau |
| | A yw'r Cyngor yn rhannu unrhyw wersi a ddysgir fel mater o drefn i lywio ymarferion comisiynu yn y dyfodol? | • Mae'r Cyngor yn rhannu ac yn cymhwyso unrhyw wersi a ddysgir o'i ddull comisiynu yn eang ar draws y sefydliad, ac â phartneriaid pan fo hynny'n berthnasol. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwlio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.